





# Gweithgareddau'r Ŵyl ar gyfer y Teulu Cyfan

## Dewch i ymuno â ni y mis Rhagfyr hwn...

AM DDIM

**'Cardiau'r Ŵyl a deunydd lapio' â Donna Jones**
Sadwrn 2 Rhagfyr
10.30am – 12.30pm ac
1.30pm – 3.30pm
**Sesiwn galw heibio AM DDIM**

Dewch i greu eich cardiau Nadolig a'ch papur lapio personol eich hun gan ddefnyddio gwahanol bapurau, printio, stampio a phwytho.



**Gweithdy 'Torchau'r Ŵyl' â Kate Jordan. Gellir bwcio**
Sul 3 Rhagfyr
10.30am – 12.30pm ac
1.30pm – 3.30pm
**£20.00 ffoniwch i neilltuo lle**

Dewch i roi cynnig ar wneud eich torch Nadolig eich hun ar gyfer eich drws neu ddarn canol bwrdd. Bydd Kate yn eich tywys fesul cam drwy'r broses draddodiadol o wneud torch ac yn eich dysgu am ddulliau trin blodau fel rhwymo, pentyrru, weirio a haenu. Fe ddarperir y defnyddiau ond beth am i chi ychwanegu'r cyffyrddiad personol i'ch torchau drwy ddod â'ch deiliant neu ddeunydd hapgael eich hun fel conau, ffrwythau wedi'u sychu neu flodau i'r sesiwn.

AM DDIM

**'Gwneud Cloriau Dyddiadur' gydag Emma-Jayne Holmes**
Sadwrn 16 Rhagfyr
10.30am – 12.30pm neu
1.30pm – 3.30pm
**Sesiwn galw heibio AM DDIM**

Gydag ysbrydoliaeth o'r arddangosfa *Nuno* gyfredol ymunwch ag Emma-Jayne i wneud eich cloriau dyddiadur personol eich hun o ffabrig a gallwch eu defnyddio flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dyma i chi anrheg ddelfrydol.

*Dewch â'ch dyddiadur eich hun i'w orchuddio neu bydd dyddiaduron ar gael yn rhad yn y gweithdy.*

